

Gwneud ei ewyllys

“Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd..., addfwynder a hunannddisgyblaeth.” (adn. 22–23)

Beth am ddarllen Galatiaid 5:16–26 ac yna myfyrio

Yr ydym i ychwanegu at wybodaeth yn ôl yr apostol Pedr ‘hunannddisgyblaeth’. Y gair Groeg a gyfieithir yma yw *enkrateia*. Roedd llawer yn yr hen fyd yn ystyried hunannddisgyblaeth fel y rhinwedd pwysicaf o bell ffordd. Roedd yr hen Roegiaid, er enghraifft, yn tystio bod hunannddisgyblaeth yn darddle i bob rhinwedd. Yn ôl Aristotl, un o athronwyr amlycaf Groeg, nid oes yr un dyn yn rhydd os yw ei nwydau yn ymladd yn erbyn ei reswm ac yn goddiweddyd. Mae ei ryddid yn dod i’r amlwg wrth i reswm ymladd yn erbyn ei nwydau a goddiweddyd.

Y gwahaniaeth elfennol rhwng yr hyn y mae Cristion yn ei ystyried fel hunannddisgyblaeth a’r hyn y mae dyn sydd ddim yn Gristion yn ei ystyried fel hunannddisgyblaeth yw hyn: yn achos y di-gred, dyma’r canolbwynt ac felly mae dyn yn rheoli ei hunan. Mae Cristion sydd yn ceisio hunannddisgyblaeth trwy Grist yn gwneud Crist yn ganolog – tarddle y weithred yw Crist a nid yr hunan. Yn ôl yr Apostol Paul yn 2 Corinthiaid 14, “Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni.” Tarddle gweithredu ym mywyd Paul oedd cariad at berson, person Iesu. Mewn geiriau eraill, rhywun gwell nag ef ei hun. Caiff ei ryddhau oddi wrth ei hunan, a hynny wrth iddo feddiannu Iesu. Fe dorrodd hyn gadwynau ei fywyd hunanganolog.

Mae pwyslais y Testament Newydd ar hunannddisgyblaeth sydd wedi gwreiddio mewn cariad at Iesu Grist. Yn ôl Awstin: “Câr Iesu a gwna’r hyn a ddymuni.” Wrth i ti garu Iesu, y mae ei ddymuniadau ef yn dod yn ddymuniadau i ti. Bob tro y byddi yn cael dy demtio i wneud rhywbeth na ddylet, yna byddi yn gwneud yr hyn y mae ef yn ei ddymuno, yn hytrach na dilyn dy chwantau dy hun. Dyna yw hunannddisgyblaeth Gristnogol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Tim. 3:1–12; 2 Tim. 2:22–3:5; Titus 1:5–9

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod hunannddisgyblaeth yn allweddol mewn arweinwyr?
2. Beth yw canlyniad diffyg hunannddisgyblaeth?

Gweddi

O Dad, rwy’n sylweddoli y medraf gael fy rheoli gan bob math o bethau. Ond gyda thi, a thrwy dy nerth di, medraf fod yn feistr ar bopeth. Mae hyn yn fy llawenhau ac yn esgor ar ddiolchgarwch yn fy enaid. Diolch yn enw Iesu. Amen.